# Y CYNGOR

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13.00 ar 12 MAWRTH 2024, ym MedRus 3, Penbryn.**

Yn bresennol: Ms Meri Huws, Cadeirydd y Cyngor (Cadeirydd); yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor; Ms Kate Eden; Ms Kylie Evans; yr Athro Simon Green; Miss Elain Gwynedd, Llywydd UMCA; Mrs Ellen ap Gwynn (tan gofnod 46); yr Athro Louise Marshall (tan gofnod 45.3); Ms Rhuanedd Richards; Mr Arwel Thomas; Mr Mark Tweed; Ms Jane Usherwood; Mr Bayanda Vundamina, Llywydd UMAber; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Yn gweinyddu: Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (ar gyfer cofnod 48); Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol; a Mr Steve Thomas; Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus.

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr).

**34. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD**

Croeso

1. Croesawyd yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor, i'w gyfarfod cyntaf.

2. Nododd yr aelodau eu diolch i Jim O'Rourke a Nia Davies am y daith o amgylch yr Hen Goleg, cyn cyfarfod y Cyngor.

**35. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w hystyried yn ystod y cyfarfod.

**36. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2023 a 19 Ionawr 2024 (COU2324-073).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

**37. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU2324-074).

NODWYD

Nododd yr aelodau y manylion diweddaraf am y camau gweithredu a oedd ar y gweill.

48.1.4. Penodi Canghellor
Cytunodd y Cyngor y dylai'r Pwyllgor Enwebiadau drafod a chytuno ar ddisgrifiad o'r swyddogaeth ac ar drefn addas ar gyfer penodi.

**38. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2324-075).

NODWYD

Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor pryd y cafodd materion eu cymeradwyo gan aelodau, neu gan y Cadeirydd ar ran y Cyngor.

**39. GOHEBIAETH**

1. Datganiad o'r blaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi.

DERBYNIWYD

Gohebiaeth oddi wrth Prifysgolion Cymru yn ymwneud â Datganiad Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Comisiwn (COU2324-076).

**PENDERFYNWYD**

Dylid gwahodd Cadeirydd a Phrif Weithredwr y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i gyfarfod yn y dyfodol i gyflwyno gwybodaeth i'r Cyngor [GWEITHREDU: Ysgrifennydd y Brifysgol].

**40. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU2324-077).

NODWYD

1. Roedd tair prif ran i'r adroddiad: adroddiad uchafbwyntiau; adroddiad cynllunio a chofrestriadau myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebu.
2. Nododd yr Is-Ganghellor farwolaeth y myfyriwr o Brifysgol Aberystwyth, Stephen Ashdown, gan fynegi ei gydymdeimlad dwysaf â'i deulu a'i gyfeillion. Mae'r ymchwiliad yn mynd rhagddo ac mae gwasanaethau cymorth wrth law i'r teulu, myfyrwyr a staff.

3. Cyhoeddwyd erthygl newyddion yn ddiweddar ynglŷn ag aflonyddu rhywiol a gwnaed astudiaeth achos yn enwi Prifysgol Aberystwyth. Er i'r adroddiad nodi bod y gwasanaethau cymorth wedi rhoi cefnogaeth arbennig o dda, nodwyd yn yr adroddiad na chawsant eu gefnogaeth eu tiwtor. Mae ymarfer 'gwersi a ddysgwyd' yn cael ei gynnal ar hyn o bryd.

4. Dros gyfnod y Nadolig roedd y Brifysgol wedi gordynnu dros dro. Ni chafodd unrhyw gosbau eu gosod ac fe hysbyswyd CCAUC. Mae prosesau ar waith i osgoi sefyllfa debyg yn y dyfodol.

5. Cafodd swyddogaeth y Cyfarwyddwr Masnachol ei diwygio, er ei bod yn dal i ganolbwyntio ar adolygu meysydd penodol o weithgareddau masnachol a refeniw. Penodiad 6 mis fydd hwn, a bydd proses benodi y Prif Swyddog Gweithredu yn cael ei chyflymu.

6. Mae niferoedd myfyrwyr rhyngwladol yn parhau i fod yn risg ledled y sector, ac mae’r patrymau denu myfyrwyr yn dal yn anodd eu rhagweld. Mae'r gyllideb yn ochelgar oherwydd lefel y risg.

7. Mae yma feysydd llwyddiannus o weithgarwch ymchwil sy'n gyrru'r agenda ymchwil. Cafodd Gwobr Pen-blwydd y Frenhines ei nodi yn arbennig, a llongyfarchwyd y tîm am eu hymchwil o’r radd flaenaf.

**PENDERFYNWYD**

8. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

## 41. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bayanda Vundamina, Llywydd Undeb y Myfyrwyr (COU2324-078)

NODWYD

1. Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, a gynhaliwyd ar 4ydd Mawrth, oedd y prysuraf erioed, ac roedd 150 o fyfyrwyr yn bresennol. Pleidleisiodd y myfyrwyr, gyda mwyafrif o 81%, o blaid ailenwi Undeb y Myfyrwyr yn 'Undeb Aberystwyth'.

2. Cynhaliwyd amrywiaeth o ddigwyddiadau ymgyrchu, gan gynnwys wythnos cydraddoldeb hiliol, dathliad rhyddhau, a digwyddiadau cwrdd a chyfarch.

3. Cymerodd UMCA ran yn yr Eisteddfod Ryng-Golegol ac ennill am y tro cyntaf mewn 8 mlynedd. Enillodd myfyrwyr UMCA bedair o'r chwe phrif wobr; sef y wobr Wyddoniaeth, y wobr Gelf, y Goron, a'r Gadair. Llongyfarchwyd y myfyrwyr ar eu llwyddiant gan yr aelodau.

4. Mae'r Undeb yn gweithredu diffyg wedi’i gynllunio, ac mae'n gweithio gyda Gweithrediaeth y Brifysgol yng nghyswllt cyllid ar gyfer y dyfodol.

5. Mae cyfnod pleidleisio yr etholiadau yn mynd rhagddo. Mae mwy o ymgeiswyr nag erioed wedi sefyll i gael eu hethol.

6. Dathlodd UMCA 'Ddiwrnod Hawliau'r Gymraeg' ar 7 Rhagfyr trwy gynnal diwrnod o weithgareddau ac arddangosfa gan Gymdeithas yr Iaith. Cododd cyngerdd Nadolig Pantycelyn arian i UMCA 50 a phapur Yr Angor. Cafodd y cydweithio rhwng UMCA a'r gymuned leol ei nodi yn hyn o beth.

7. Mae gwaith ar y gweill i godi arian ar gyfer dathliadau hanner can mlwyddiant UMCA, a gynhelir ar 15 Mehefin.

**PENDERFYNWYD**

8. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

## 42. DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Sion Anthony Jones, Dadansoddwr Gwybodaeth Fusnes, y Swyddfa Gynllunio (COU2324-079).

NODWYD

1. Mae'r Cynllun Cyfraniad Effeithiol (CCE) yn ddangosydd traddodiadol, ond nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu'r diwylliant a'r teimladau ymhlith y staff. Holodd yr aelodau a oedd y Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) yn addas, yn enwedig gan nad oedd wedi gwella'n sylweddol dros gyfnod hir.

2. Holodd yr aelodau a oedd yn briodol adolygu'r DPA yn rhan o'r cynllunio strategol, gyda'r bwriad o resymoli a chanfod camau gweithredu priodol.

**PENDERFYNWYD**

3. Dylai'r Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant ystyried y metrigau yng nghyswllt y CCE ac ystyried sut y gellid ei wella [GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol].

4. Dylai'r Is-Ganghellor ystyried pa mor addas yw'r DPA, a'u diwygio'n briodol, ar ôl cadarnhau strategaeth y Brifysgol [GWEITHREDU: yr Is-Ganghellor].

5. Nodwyd y diweddariad am y Dangosyddion Perfformiad Allweddol gan yr aelodau.

## 43. DIWEDDARIAD IECHYD A DIOGELWCH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Claire Williams, Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd

NODWYD

1. Mae'r tîm Iechyd a Diogelwch wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr adran Ystadau cyn y cylch cynllunio i nodi materion cydymffurfio sydd angen eu blaenoriaethu.

2. Gwnaed mwy o waith ynglŷn â hyfforddiant, gan edrych yn benodol ar gynyddu lefelau presenoldeb. Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal â chydweithwyr yn yr adran Dysgu

Gydol Oes i ystyried cyfleoedd posibl i gynhyrchu incwm a gwneud cymaint â phosib o arbedion yng nghyswllt cyrsiau hyfforddi. Bydd hyfforddiant Iechyd a Diogelwch yn cael ei ddarparu i'r Cygnor maes o law [GWEITHREDU: Ysgrifennydd y Brifysgol].

3. Gwelwyd cynnydd yn yr Adroddiadau am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae'r ystadegau hefyd yn dangos effaith y tywydd, ac effaith posibl llifogydd a newidiadau yn y tymheredd yn yr hirdymor.

4. Trafododd yr aelodau yr argymhellion a lefel y sicrwydd a gafwyd mewn adolygiad yn deillio o archwiliad mewnol diweddar, a'r angen i sicrhau bod argymhellion ynglŷn â Iechyd a Diogelwch sy'n cael eu dirprwyo i gyfadrannau yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad diweddaru i'r Cyngor [GWEITHREDU: Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd].

5. Trafododd yr aelodau y meysydd risg, yn enwedig i ardaloedd ac adeiladau allweddol ar y campws. Nodwyd yr angen i sicrhau cynllunio addas, ac i sicrhau bod gwaith adfer yn cyd-daro â'r strategaeth Ystadau.

6. Trafodwyd materion Iechyd a Diogelwch yn ymwneud â'r Hen Goleg. Nodwyd mai Andrew Scott oedd yn gyfrifol tra bo'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo. Dylid rhoi ystyriaeth i'r agweddau risg a goruchwylio Iechyd a Diogelwch sydd angen craffu arnynt yn yr Hen Goleg.

**PENDERFYNWYD**

7. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

8. Dylai'r Cyngor ystyried y cynlluniau ategol, gan gynnwys y strategaeth Ystadau, unwaith y cytunir ar strategaeth y Brifysgol yn yr hydref 2024. [**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Ystadau, Adnoddau a Llety].

**44. POLISI IECHYD A DIOGELWCH**

DERBYNIWYD

Polisi Iechyd a Diogelwch (COU2324-080b)

NODWYD

1. Mae'r polisi Iechyd a Diogelwch yn ddogfen gyhoeddus sy'n cael ei rhannu â staff, rhanddeiliaid, a phartneriaid. Gwnaed gwelliannau i'r polisi yn sgil trafodaethau yn y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant, ac fe gadarnhawyd gyda'r timau Cyfathrebu a Marchnata bod cynnwys y rhagymadrodd yn gofnod cywir.

2. Ymgynghorwyd â Grŵp Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac â'r Undebau Llafur.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwywyd y polisi. Nododd yr aelodau yr angen am negeseuon cyson ar draws llwyfannau'r brifysgol, a gofyn i'r naratif a'r cyfiawnhad gael eu rhannu â'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio yn ei gyfarfod nesaf [GWEITHREDU: Ysgrifennydd y Brifysgol].

**45. MATERION ARIANNOL**

1. <u>Diweddariad ar y Cyfrifon Rheoli – diwedd y Mis/Chwarter</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Rhian Linehan, Partner Busnes Cyllid; Stephen Harrison, Partner Busnes Cyllid, a Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio (COU2324-081).

NODWYD

1. Ar hyn o bryd, mae'r rhagolwg yn nodi mai diffyg o £5.8m fydd y sefyllfa diwedd-blwyddyn heb roi camau rheoli pellach ar waith. Wrth ddod i'r casgliadau hyn, ystyriodd y tîm Cyllid nifer o bosibiliadau, ac amlinellu canlyniadau y sefyllfaoedd gorau a gwaethaf.

2. Mae cynnydd da yn cael ei wneud o ran y targed arbedion y rhagwelir y gellir ei gyflawni, sef £7.3. Mae angen gwneud arbedion ychwanegol i gau'r bwlch. Roedd y prif risgiau wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad.

3. Trafodwyd y symudiadau anffafriol, gan gynnwys effaith y dŵr yn gollwng ar y campws.

4. Dangosodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio y gellid sicrhau'r Cyngor bod gwaith yn mynd rhagddo, gan gynnwys adroddiadau wythnosol ar lif arian. Gofynnodd yr aelodau a ellid datblygu sgôr RAG er mwyn gweld sut y gellid gwneud ac olrhain cynnydd.

5. Dywedodd y swyddogion bod angen gosod cyllideb realistig a oedd yn dangos yr holl gostau. Mae'r gwaith o oruchwylio a rheoli'r sefyllfa yn gwella, ac nid yw swyddogion yn disgwyl gorfod ymdrin ag unrhyw faterion newydd cyn diwedd y flwyddyn academaidd.

6. Yn sgil yr adroddiad gan TIAA, pery cyfrifoldeb uwch nag arfer i adrodd. Bydd papur 'gwersi-a-ddysgwyd' yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ym mis Mehefin 2024.

7. Holodd yr aelodau a oedd prawf straen wedi'i gynnal yng nghyswllt y cynllun er mwyn deall yr heriau a pha ddulliau oedd ar gael i'r Brifysgol, pe bai angen.

8. Holodd yr aelodau pryd y byddai angen cymryd camau penodol, pe bai'r sefyllfa waethaf yn dod i fod. Cadarnhaodd y swyddogion ei bod y hollbwysig cadw llygad fanwl ar y gyllideb yn 2023-24. Nododd y swyddogion hefyd bod rhai adolygiadau a ffrydiau gwaith ar y gweill lle bo modd, fel bod modd gweithredu ar unwaith yn ôl yr angen.

9. Nododd yr aelodau bryder ynghylch yr effaith y gallai hyn ei chael ar ysbryd y staff a phrofiad y myfyrwyr. Cadarnhaodd y swyddogion fod pob ymdrech wedi'i wneud i reoli'r effaith.

10. Holodd yr aelodau ynglŷn â Dangosyddion Ariannol CCAUC a gofyn a oedd problemau o ran y Rheoleiddiwr. Cadarnhawyd bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng staff yn y ddau sefydliad a bod swyddogion CCAUC yn cael sicrwydd bod camau yn cael eu cymryd.

11. Mae'r newidiadau i'r cyllidebau yn dangos pa mor heriol yw'r dirwedd. Nododd yr aelodau fod trafodaeth adeiladol wedi'i chynnal yn y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, a roddodd sicrwydd da i'r aelodau ynghylch ein cyfeiriad cyffredinol a sefyllfa derfynol y gyllideb.

12. Trafododd yr aelodau a oedd y tîm Cyllid yn ddigon gwydn i ymdopi pe bai aelodau allweddol o staff i ffwrdd o'r busnes. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio bod trefniadau diwygiedig wedi eu gwneud yn y tîm i leddfu'r pwysau o ddydd i ddydd, a oedd hefyd yn sicrhau mwy o wytnwch ac eglurder ynglŷn â'r sefyllfa ariannol.

**PENDERFYNWYD**

13. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

2. <u>Cyllideb a Chylch Cynllunio 2024/2025</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio (COU2324-082).

NODWYD

1. Mae'r timau Cyllid a Chynllunio wedi gwneud gwaith modelu ar gyfer 2024-25. Y prif dybiaeth yw £12.5m o ddiffyg yn 2024-25, wedi'i seilio ar niferoedd myfyrwyr yn gwastatáu. Mae'r rhagolygon yn seiliedig ar niferoedd israddedigion cartref UCAS ar 31 Ionawr, ac ar dderbyn nifer tebyg o fyfyrwyr rhyngwladol â 2022-23. Ystyriwyd y canlyniadau a'r effaith y gallai'r niferoedd tybiedig o fyfyrwyr eu cael heb unrhyw gamau lliniaru, yn enwedig o safbwynt parhad busnes.

2. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal â phob un sy'n dal cyllideb i ystyried gostyngiadau o 5-15% mewn costau, a'r effaith. Mae data meincnodi wedi'i ddarparu ar gyfer y Gymhareb Staff Myfyrwyr (SSR); costau staff fel canran o'r incwm o ffioedd dysgu; costau cyffredinol a chyfraniadau gwaith ymchwil; a gwybodaeth megis cyrsiau a modiwlau nad oes llawer o fyfyrwyr yn eu hastudio.

3. Fe fydd newidiadau yn costio, yng nghyswllt rhwymedigaethau contractau y bydd yn rhaid i'r brifysgol eu talu cyn gweld arbedion. Nid yw manylion a chwantwm y costau yn hysbys ar hyn o bryd.

4. Mae'r £3m o ddiffyg a ragwelir yn 2024-25 yn cael ei yrru'n bennaf gan ofynion cyfamod yr Adnodd Credyd Cylchdroi newydd.

5. Rhoddwyd diweddariad ar ddenu a chofrestru myfyrwyr i'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, yn cynnwys modelu amrywiol oherwydd y dirwedd ansefydlog. Mae'r Clirio'n debygol o fod yn hynod gystadleuol ar draws y sector.

6. Trafododd yr aelodau yr angen i ddod â rhai gweithgareddau i ben, a chydnabod y dull o gyflawni hyn yw i Weithrediaeth y Brifysgol a'r cylch cynllunio wneud penderfyniadau yn lleol, a sicrhau bod penderfyniadau ad-hoc yn cael eu hatal am y tro fel bod modd blaenoriaethu trwy weithgareddau trawsbynciol.

7. Dylid ystyried y rhaglen newid yn risg ar wahân ar y gofrestr risgiau corfforaethol, a dylai’r fframwaith gael ei fonitro gan y Pwyllgor AR&S, a’r pwyllgorau unigol fel y bo’n briodol.  b

**PENDERFYNWYD**

5. Nodwyd yr adroddiad

Gadawodd yr Athro Louise Marshall y cyfarfod.

3. Ffioedd Myfyrwyr

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Helen Eustace, Pennaeth Cynllunio, a Sarah Taylor, Pennaeth Datblygu Strategol (COU2324-083).

NODWYD

1. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fwriad i gynyddu uchafswm ffi reoledig israddedigion cartref i £9250 o fis Medi 2024. Cafwyd cyngor cyfreithiol ac, yn seiliedig ar delerau ac amodau'r Brifysgol, gellir gweithredu'r cynnydd yn y ffioedd o fis Medi 2024. Byddai angen i'r Brifysgol roi gwybod i’r holl fyfyrwyr am y newid, a bydd angen amrywiad i Gynllun Ffioedd a Mynediad y Brifysgol.

2. Pe byddai'r cynnydd yn cael ei weithredu, byddai'n cael ei weithredu yn achos yr holl fyfyrwyr ac ni fyddai'r Brifysgol yn gwahaniaethu rhwng cyrsiau yn hyn o beth. Caiff ffioedd myfyrwyr rhyngwladol eu pennu a'u cytuno ar wahân.

3. Agorodd Porth y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ym mis Mawrth ac nid yw'n adlewyrchu'r cynnydd posib yn y ffioedd. Codwyd y mater hwn ac mae'n cael ei ystyried yn briodol, yn amodol ar benderfyniadau a phrosesau cymeradwyo yn lleol a chenedlaethol.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwyodd yr aelodau yr argymhelliad i gynyddu’r ffi i £9250 o fis Medi 2024. Rhoddwyd yr awdurdod i'r Weithrediaeth benderfynu ar yr amseriad priodol i weithredu'r penderfyniad. Dylid rhoi gwybod i'r Cyngor pan fydd y penderfyniad wedi'i gyhoeddi [**GWEITHRED**: Ysgrifennydd y Brifysgol].

4. Ffioedd Myfyrwyr heb eu rheoleiddio

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Helen Eustace, Pennaeth Cynllunio, a Sue Clark, Swyddog Datblygu Busnes
(COU2324-084)

NODWYD

1. Roedd data dadansoddi cystadleuwyr yn dangos safle lefelau ffioedd Prifysgol Aberystwyth ar hyn o bryd. Cafodd cynnydd o 5%, 7% a 10% i’r ffioedd eu cyflwyno a’u hystyried.

2. Byddai unrhyw newidiadau yn cael eu cyhoeddi yn union cyn dechrau'r cylch denu myfyrwyr 2025-26 yng ngwanwyn 2024.

**PENDERFYNWYD**

5. Cymeradwywyd cynnydd o 10% i'r ffioedd canlynol, sydd heb eu rheoleiddio, am 2025-26:
   1. Israddedig Rhyngwladol - Pynciau Ystafell Ddosbarth
   2. Israddedig Rhyngwladol – Pynciau Labordy
   3. Uwchraddedig trwy Gwrs (Cartref) – Pynciau ystafell ddosbarth
   4. Uwchraddedig trwy Gwrs (Rhyngwladol) – Pynciau Labordy
   5. MBA Ffioedd cartref a rhyngwladol
   6. MBA Gweithredol (rhan-amser)
   7. Meistr mewn Rheoli Gweithredol (rhan-amser) Cartref a Rhyngwladol
   8. Ffi TAR rhyngwladol
   9. Band Ffioedd Ymchwil Uwchraddedig Rhyngwladol Celfyddydau/Gwyddorau Cymdeithasol
   10. Band Ffioedd Ymchwil Uwchraddedig Rhyngwladol yn y Gwyddorau Rhyngwladol

6. Cymeradwywyd cynnydd o 10% i Ffioedd y Ganolfan Saesneg Ryngwladol.

5. <u>Penodi Archwilwyr Allanol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Matthew Clarke, Rheolwr Trethi a Buddsoddiadau (COU2324-085)

NODWYD

1. Dyfarnwyd contract tair blynedd i KPMG o 1 Awst 2022 am wasanaethau Archwilio Allanol.

2. Cynhaliwyd cyfarfodydd â'r archwilwyr i drafod gwersi a ddysgwyd yn dilyn proses archwiliad 2023-24.

**PENDERFYNWYD**

5. Cymeradwyodd y Cyngor i ailbenodi KPMG yn Archwilwyr Allanol y Brifysgol am y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Gorffennaf 2024.

Gadawodd Ellen ap Gwynn y cyfarfod.

**46. MATERION LLYWODRAETHU**

1. <u>Dirprwy Gadeirydd y Cyngor</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2324-086).

NODWYD

1. Meri Huws oedd yn dal swydd Dirprwy Gadeirydd y Cyngor tan iddi gael ei phenodi'n Gadeirydd y Cyngor o 1 Ionawr 2024.

2. Ystyriodd y Pwyllgor Enwebu fynegiant o ddiddordeb a dymunai argymell i'r Cyngor i benodi Rhuanedd Richards yn Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor.

3. Bydd tymor cyntaf Rhuanedd Richards ar y Cyngor yn dod i ben ar 31 Gorffennaf 2024, felly gwnaed argymhelliad pellach i'r Cyngor benodi Rhuanedd Richards am ail dymor, tan 31 Gorffennaf 2028.

4. Er mwyn cryfhau goruchwyliaeth y Cyngor ar draws yr is-bwyllgorau, bydd cyfarfod o'r Cadeiryddion priodol yn cael ei gynnull [GWEITHREDU: Ysgrifennydd y Brifysgol].

**PENDERFYNWYD**

5. Cymeradwyodd yr aelodau benodiad Rhuanedd Richards yn Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor.

6. Cafodd Rhuanedd Richards ei hailbenodi am ail dymor ar y Cyngor, tan 31 Gorffennaf 2028.

2. <u>Clerc y Cyngor: Ystyried Annibyniaeth</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor (COU2324-087)

NODWYD

1. Cyflwynwyd papur i'r Pwyllgor Taliadau yn amlinellu newidiadau a gynigir i dîm y Weithrediaeth. Cymeradwyodd y Pwyllgor Taliadau y cynigion fel y caniateir o dan yr awdurdod a ddirprwywyd iddo. Y Cyngor sy’n gyfrifol am ystyried a yw Clerc y Cyngor yn ddigon annibynnol a bod gwahaniadau priodol yn y llinellau atebolrwydd.

2. Byddai'r swydd yn cadw’r portffolio presennol, ond ychwanegir cyfrifoldeb dros y Gymraeg, gan gynnwys Gwasanaethau’r Gymraeg a Dysgu Cymraeg, a UKVI. Byddai'r swydd hefyd yn dod yn aelod cyflawn o'r Weithrediaeth.

**PENDERFYNWYD**

3. Roedd y Cyngor yn fodlon bod swydd ddiwygiedig Ysgrifennydd y Brifysgol yn ddigon annibynnol a bod gwahaniad priodol yn y llinellau atebolrwydd.

3. <u>Adroddiad ar Gydymffurfio â Chod Ymarfer Undeb y Myfyrwyr</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol, a Trish McGrath, Prif Weithredwr UMAber (COU2324-088).

NODWYD

1. Ar ôl cynnal adolygiad o'r gofynion a'r gweithredoedd nodwyd bod statws y Cod Ymarfer yn gynrychiolaeth gywir.

**PENDERFYNWYD**

2. Nodwyd yr adroddiad.

4. Rheoli Absenoldeb Salwch: Ordinhad 35

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Sharon Lilley, Pennaeth Adnoddau Dynol (COU2324-089)

NODWYD

1. Cafodd y gefnogaeth ychwanegol i staff ei chymeradwyo gan yr aelodau, yn enwedig yng nghyswllt profedigaeth, triniaeth ffrwythlondeb, a'r dull rhagweithiol tuag at weithredu'r polisi.

2. Dylid adolygu'r polisi i sicrhau bod ieithwedd gyson yn cael ei defnyddio trwyddi draw [GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol]. Cytunodd yr Aelodau nad oedd hyn yn newid y cynnwys yn sylweddol ac y dylid rhoi blaenoriaeth i ddisodli a gwella'r polisi presennol a'r dulliau gwaith a darparu'r cymorth sydd ei angen ar weithwyr.

3. Mae argymhellion yr archwiliad mewnol yn cyfeirio at agweddau ar 'ddod nôl i'r gwaith' yn y cyfadrannau. Dylid gweithredu cysylltiadau addas rhwng adroddiadau archwilio, polisi a hyfforddiant [**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol].

4. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch pennu gofynion rheolwyr a phrosesau uwch-gyfeirio, cadarnhawyd y bydd dogfennau cyfarwyddyd ar gael i ategu egwyddorion y polisi.

5. Dylid ymchwilio i gysylltiadau rhwng dulliau o ymdrin ag iechyd meddwl staff a myfyrwyr.

**PENDERFYNWYD**

6. Cymeradwywyd y polisi, a dylid diwygio Ordinhad 35 i adlewyrchu'r polisi. Cafodd awdurdod i gymeradwyo mân welliannau ei ddirprwyo gan yr aelodau i Gadeirydd y Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant.

7. Dylid adolygu amseriad y pwyllgorau er mwyn sicrhau bod digon o amser rhwng pwyllgorau a'r Cyngor [GWEITHREDU: Ysgrifennydd y Brifysgol].

**47. ADRODDIADAU / DATGANIADAU BLYNYDDOL**

1. Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dylan Jones, Rheolwr Amrywioldeb a Chynhwysiant (COU2324-090a).

NODWYD

1. Ystyriwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant. Holodd yr Aelodau a ellid cyflwyno'r naratif a'r wybodaeth yn y tablau mewn fformat amgen er mwyn bod mor gynhwysol â phosibl. Cytunwyd ar hyn ac fe’i addaswyd.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwywyd yr adroddiad.

2. <u>Cynllun Cydraddoldeb Strategol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dylan Jones, Rheolwr Amrywioldeb a Chynhwysiant (COU2324-090b).

NODWYD

1. Y cyfeiriad am y pedair blynedd nesaf, gan gynnwys blaenoriaethau megis lleihau'r bwlch mewn cyflogau, a chyrhaeddiad myfyrwyr.

2. Mae'r camau gweithredu am y 12 mis nesaf yn cydnabod bod angen i'r cynllun weithio ar draws gwaith craidd y Brifysgol. Wrth i Strategaeth y Brifysgol gael ei datblygu a'i chymeradwyo, gall y camau dros dro sicrhau cynnydd parhaus. Dylid ailystyried cynllun diwygiedig a chamau gweithredu cysylltiedig ymhen 12 mis i adlewyrchu Strategaeth y Brifysgol [GWEITHREDU: Rheolwr Amrywioldeb a Chynhwysiant].

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwywyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, yn amodol ar nodi mai cynllun blwyddyn ydyw ag iddo ddyheadau 3 blynedd, ac i esbonio cyd-destun y penderfyniad hwn yn yr adroddiad [GWEITHREDU: Rheolwr Amrywioldeb a Chynhwysiant].

3. <u>Gwahaniaeth rhwng Cyflogau Dynion a Menywod</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dylan Jones, Rheolwr Amrywioldeb a Chynhwysiant (COU2324-090c).

NODWYD

1. Mae'r Brifysgol yn is na chyfartaledd y sector ar fater cyflog cymedrig a chyfryngol yng nghyswllt tâl dynion a menywod. Mae cynllun gweithredu yn ei le i fynd i'r afael â'r bwlch hwn mewn cyflogau. Llwyddodd y Brifysgol i ennill gwobrau efydd Athena Swan.

2. Trafododd yr Aelodau ddyrchafiadau academaidd, yn enwedig nifer y menywod sy'n symud ymlaen i lefel Athro a'r camau cysylltiedig.

3. Mae adrannau wedi mynegi diddordeb i wneud cais am Athena Swan. Mae'r gwaith ar draws y brifysgol yn cael ei gynnal trwy'r Grŵp Llywio, ond gellir gwahodd adrannau i'r cyfarfodydd er mwyn dysgu o waith blaenorol, a gwneud cais yn uniongyrchol. Dylid ystyried llwyth gwaith cyn gwneud unrhyw geisiadau.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwywyd yr adroddiad.

5. Dylai'r camau gweithredu a'r cynnydd gael eu hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant, gan roi ystyriaeth fanwl i feysydd penodol [GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol].

4. Adroddiad Blynyddol ArloesiAber 22-23

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Rhian Hayward, Prif Swyddog Gweithredol y Campws Arloesi (COU2324-091).

NODWYD

1. Nid oes amserlen bendant ar gyfer canlyniadau Bargen Twf Canolbarth Cymru. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor yn y man.

**PENDERFYNWYD**

2. Nodwyd yr adroddiad.

**48. YR HEN GOLEG**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (COU2324-092).

NODWYD

1. Mae’r amcangyfrif o gyfanswm cost y prosiect wedi cynyddu o £44.1m i £54.303m ers yr adroddiad blaenorol i'r Cyngor. Mae hyn oherwydd darlun gwell o effaith chwyddiant sy'n dylanwadu ar lafur a deunyddiau is-gontractwyr; costau ychwanegol oherwydd ei bod yn debygol y bydd angen ymestyn yr amserlen; a'r gwariant cynyddol ar ffioedd proffesiynol. Cynigir y bydd y bwlch cyllido yn cael ei ddatrys trwy droi at ffynonellau cyllid eraill.

2. Cafodd y cynllun busnes gwreiddiol ei ddrafftio yn 2019 a'i ddiwygio yn 2021 i gynnwys adeilad Cambria er mwyn gwneud y prosiect yn fwy hyfyw yn fasnachol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu a diweddaru'r cynllun busnes.

3. Roedd y cynllun busnes gwreiddiol yn cynnwys bwriad i gynnig mynediad am ddim i'r orielau parhaol, a thâl mynediad o tua £4.20 am deithiau arddangos arbennig yn yr Hen Neuadd yn nhymor yr Haf rhwng Mehefin a Medi. Wrth ystyried cynnydd y costau ar gyfer gweithredu'r adnoddau newydd nodwyd sawl cynnydd sylweddol yn y costau na ragwelwyd ar y pryd. Yn y bôn, mae'r rhain yn deillio o chwyddiant ers 2019. Y prif gostau ychwanegol yw costau llafur, bwyd a chyfleustodau.

4. Mae trafodaethau â CThEF dros bedair blynedd wedi ei gwneud yn amlwg bod yn rhaid ymrwymo i weinyddu trefn o werthu tocynnau ac i gadw cofnodion cywir o bawb sy’n cael mynediad am ddim i'r oriel. Er mwyn cyflawni hyn mae'r cynlluniau wedi ymgorffori cynigion i osod cloeon electronig Salto ar yr orielau y bydd angen tocyn o rhyw fath i gael mynediad iddynt.

5. Byddai tâl o £2.00 gan gynnwys TAW yn darparu incwm ychwanegol o tua £145,000 o'r nifer disgwyliedig o 87,000 a fyddai'n cael mynediad, a byddai hyn yn gyfraniad sylweddol tuag at gostau gweithredu.

6. Gofynnodd aelod o'r Cyngor a oedd ymchwil wedi'i wneud ynglŷn â chynlluniau aelodaeth. Nid yw hyn yn y cynllun busnes ar hyn o bryd a dylai swyddogion y Brifysgol ymchwilio iddo [**GWEITHREDU**: Dirprwy Is-Ganghellor: Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol].

7. Nodwyd y byddai'r cynllun busnes yn cael ei adolygu'n rheolaidd, a byddai'r ffi yn cael ystyriaeth barhaus a'i haddasu fel y bo'n briodol.

**PENDERFYNWYD**

8. Codi tâl o £2.00 am fynediad i'r orielau a reolir ac i ymgorffori'r cam hwn yn y Cynllun Busnes.

Nododd y Cadeirydd mai hwn fyddai cyfarfod olaf Dr Rhodri Llwyd Morgan. Diolchwyd iddo am ei waith ar y prosiect ac am ei gyfraniadau i'r Cyngor a chymuned y Brifysgol.

**49. YSTADAU, CYFLEUSTERAU A PHRESWYLFEYDD**

1. <u>Gwaredu Tir Rhodd Wasdell</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ms Andrea James, Cyfarwyddwr Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd, a Tim Macy, Rheolwr Cynllunio Gofod a'r Ystâd (COU2324-093)

**PENDERFYNWYD**

1. Cymeradwyodd yr aelodau waredu'r tir a roddwyd i Brifysgol Aberystwyth, yn unol â thelerau'r gymynrodd, gan gynnwys defnyddio Sêl y Brifysgol yn ôl yr angen.

2. <u>Prydles Campfa Caeau'r Ficerdy fel Mosg</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ms Andrea James, Cyfarwyddwr Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd; ac Ian Munton, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Myfyrwyr, a Tim Macy, Rheolwr Cynllunio Gofod a'r Ystâd (COU2324-094)

NODWYD

1. Manteision ymrwymo i gytundeb ffurfiol â Chymdeithas Islamaidd Aberystwyth. Byddai'r cytundeb yn ffurfioli'r cytundeb hirsefydlog, anysgrifenedig, sy'n caniatáu i'r gymuned Islamaidd leol ddefnyddio campfa Caeau'r Ficerdy, fel mosg.

2. Byddai'r cytundeb drafft yn gosod ar y Tenant rwymedigaeth lawn ar gyfer atgyweirio'r adeilad, yn gyfnewid am rent rhad. Byddai'r cytundeb hefyd yn hyrwyddo ymrwymiad y Brifysgol i ffydd ac ysbrydolrwydd, yn cryfhau ein perthynas â'r gymuned Islamaidd leol, yn gwella ansawdd y gofod, a gwneud y

Brifysgol yn fwy atyniadol i ddarpar staff a myfyrwyr a allai fod eisiau defnyddio gofod o'r fath yn ystod eu cyfnod yn Aberystwyth.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwywyd y cynnig i ymrwymo i brydles pum mlynedd â Chymdeithas Islamaidd Aberystwyth ar gyfer defnyddio'r gampfa yng Nghaeau'r Ficerdy fel mosg, gan gynnwys defnyddio Sêl y Brifysgol yn ôl yr angen.

## 50. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Cafodd yr aelodau adroddiadau ar y canlynol:

1. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU2324-095);
PENDERFYNWYD

1.1. Cymeradwywyd y gofrestr risg ddiwygiedig.

2. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin (COU2324-096);

3. Digwyddiadau Difrifol y rhoddwyd gwybod i'r Comisiwn Elusennau amdanynt (COU2324-097);

4. Adroddiad ar gwynion ynglŷn â Safonau'r Gymraeg (COU2324-098).

5. Adrodd tryloyw ar incwm a gwariant (COU2324-099);

6. Canlyniadau Rhagarweiniol Prisio Tair Blynedd AUPAS (COU2324-100);

NODWYD

7. Cyflwynwyd cynnwys yr adroddiadau er gwybodaeth.

## 51. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys cofnodion is-bwyllgorau'r Cyngor (COU2324-101):

NODWYD

Yr adroddiadau a ddaeth o'r is-bwyllgorau.

## 52. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A MATERION YN Y DYFODOL

Gwnaed cais i drafod Strategaeth y Gymraeg mewn cyfarfod yn y dyfodol. Cadarnhaodd swyddogion fod disgwyl i'r strategaeth gael ei hystyried gan y Senedd ym mis Mehefin, ac y bydd y Cyngor yn ei thrafod yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf.

Diolchwyd i'r swyddogion am eu cyfraniadau a'u hadroddiadau.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ar 16 Mai 2024, a sesiwn Strategaeth ar 15 Mai 2024.